

Beth yw dementia gyda chyrff Lewy?



**Alzheimer's
Research
UK**

Make breakthroughs possible



Mae wybodaeth yn y llyfryn hwn ar gyfer unrhyw un sydd am wybod mwy am ddementia gyda chyrff Lewy (DLB). Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n byw gyda DLB, eu gofalwyr, teuluoedd a ffrindiau. Mae'r llyfryn yw rhoi cyflwyniad i DLB. Mae'n rhoi trosolwg o'r achosion, symptomau a thriniaethau.

Cynnwys

Cyflwyniad	03	Triniaethau	10
Beth yw dementia gyda chyrff Lewy?	04	Ffactorau risg	12
Symptomau	06	Cefnogaeth	12
Diagnosis	08	Ymchwil	15

Nid yw'r wybodaeth hon yn disodli unrhyw gyngor y gall meddygon, fferyllwyr neu nyrsys ei rhoi i chi, ond y mae'n darparu peth wybodaeth gefndirol a fydd, gobeithio, o gymorth i chi.

Diweddarwyd y llyfryn ym mis Rhagfyr 2019 ac fe'i adolygir ym mis Rhagfyr 2021. Cofiwch gysylltu â ni os hoffech gael fersiwn gyda chyfeiriadau neu mewn fformat gwahanol.

Beth yw dementia gyda chyrrff Lewy?

Defnyddir y gair i ddisgrifio grŵp o symptomau. Mae'r rhain yn cynnwys colli cof, dryswch, a newidiadau mewn iaith, golwg ac ymddygiad sy'n effeithio ar fywyd o ddydd i ddydd.

Mae nifer o wahanol bethau'n achosi dementia, a chlefyd Alzheimer yw'r mwyaf cyffredin.

Dementia gyda chyrrff Lewy (DLB) yw'r trydydd math mwyaf cyffredin o ddementia. Am bob 100 o bobl â dementia, bydd gan tua 10-15 ohonynt DLB. Mae hyn yn golygu bod rhyw 100,000 o bobl yn y DU yn debygol o fod â'r math hwn o ddementia. Gall DLB hefyd ddigwydd gyda mathau eraill o ddementia, megis clefyd Alzheimer; dementia cymysg yw'r enw ar hyn.

Achosir DLB gan glystyrau bychain crwn o brotein sy'n cronni y tu mewn i gelloedd nerfau'r ymennydd. Alpha-synuclein yw'r enw ar un o'r proteinau hyn a chyrrff Lewy yw'r enw ar y clystyrau mae'n eu ffurfio. Mae cyrrff Lewy yn difrodi celloedd y nerfau ac yn effeithio ar y ffordd maent yn cyfathrebu.


Mae DLB, mae'r cyrrff Lewy yn effeithio ar gelloedd nerf yn y rhannau hynny o'r ymennydd sy'n rheoli meddwl, cof a symud.

DLB, clefyd Parkinson a dementia clefyd Parkinson

Mae cyswllt agos rhwng DLB a chlefyd Parkinson.

Mae cyrrff Lewy hefyd yn achosi'r difrod sy'n arwain at broblemau symud yng nghlefyd Parkinson. Mae pobl â chlefyd Parkinson yn fwy tebygol o fynd ymlaen i ddatblygu dementia, a adwaenir fel dementia clefyd Parkinson (PDD).

Gall DLB a PDD effeithio ar bobl mewn ffyrdd tebyg iawn. Os bydd symptomau dementia yn ymddangos cyn neu ar yr un pryd ag y bydd pobl yn dechrau cael problemau symud, yna nid yw diagnosis o ddementia gyda chyrrff Lewy yn debygol o gael ei roi. Os bydd problemau symud yn ymddangos am flwyddyn neu fwy cyn arwyddion dementia, yna mae'n debyg y rhoddir diagnosis o PDD.



Symptomau

Gall dementia gyda chyrrff Lewy achosi symptomau cyffredin dementia, gan gynnwys problemau gyda'r cof a sgiliau meddwl.



Fodd bynnag, mae rhai symptomau mwy penodol yn gysylltiedig â'r clefyd. Gwelir rhai o'r rhain hefyd mewn PDD.

Ymysg y symptomau hyn mae:



Bywiogrwydd

Newidiadau mewn bywiogrwydd a sylw, a chyfnodau o ddryswch, a all fod yn anwadad a newid o awr i awr neu ddydd i ddydd.



Problemau symud

Symptomau tebyg i Parkinson megis symudiadau arafach, stifferwydd yn y breichiau a'r coesau, ac ysgwyd neu grynu.



Rhithweledigaethau

Gweld pethau nad ydynt yno mewn gwirionedd, e.e., pobl neu anifeiliaid. Mae'r rhain yn aml yn digwydd dro ar ôl tro ac y maent yn realistig ac wedi eu ffurfio'n dda.



Sefydlogrwydd

Ansadrwydd a chwmpo.



Tarfu ar gwsg

Breuddwydion llachar, gweiddi neu symud mewn cwsg a all darfu ar gwsg, ac a all achosi anafiadau.



Synnwyr arogl

Problemau clywed arogleuon.

Cyflyrau cynyddol yw DLB a PDD sy'n golygu bod symptomau yn gwaethygu dros amser. Wrth i'r clefyd gynyddu, bydd ar bobl angen mwy o help gyda bwyta, symud, gwisgo a defnyddio'r toiled.

Gall y clefydau gynyddu'n araf dros flynyddoedd lawer, ond gall cyflymder y newid a'r mathau o symptomau amrywio o un unigolyn i'r llall.

Diagnosis

Mae'n bwysig cael y diagnosis iawn er mwyn gallu rhoi'r triniaethau a'r help cywir.

Os ydych yn poeni am eich iechyd chi neu rywun arall, dylech gael gair gyda'ch meddyg teulu.



Os yw eich meddyg teulu yn amau dementia, efallai y cewch eich cyfeirio at glinig cof neu glinig arbenigol arall.



Cewch eich holi am eich symptomau a'ch hanes meddygol ac efallai y cewch archwiliad corfforol a phroffion ar y cof a'r meddwl.



Efallai y cewch hefyd broffion megis sganiau ar yr ymennydd a phroffion gwaed.

Gyda'i gilydd bydd y proffion hyn yn helpu i ganfod achos tebygol eich symptomau.

Gall sganiau, ar yr ymennydd megis MRI (delweddu cyseinedd magnetig) neu CT (tomograffeg cyfrifiadurol), helpu i brofi nad pethau eraill sy'n achosi'r dementia.

I helpu i wneud diagnosis penodol o DLB, efallai y defnyddir math o sgan o'r enw sgan SPECT (neu 'DaTscan'). Gall y math hwn o sgan ddangos newidiadau yn yr ymennydd sydd yn fwy cyffredin yn y math hwn o ddementia. Fodd bynnag, efallai na fydd ar bobl â symptomau clir iawn o DLB neu PDD angen y proffion hyn.



Triniaethau

Mae rhai triniaethau a all helpu gyda symptomau dementia gyda DLB a PDD.

Mae tystiolaeth y gall cyffuriau a ddefnyddir i drin clefyd Alzheimer helpu i wella rhai o symptomau DLB a PDD, gan gynnwys problemau gyda sgiliau meddwl a rhithweledigaethau gweledol.

Enwau'r cyffuriau hyn yw:

donepezil

rivastigmine

galantamine

memantine

Gall meddyg ystyried cyffuriau gwrthseicotig i drin cynnwrf neu ymddygiad ymosodol mewn dementia. Fodd bynnag, gall pobl â DLB ddioddef sgil effeithiau difrifol o ganlyniad i'r cyffuriau hyn, ac felly dylid monitro'r driniaeth yn ofalus. Yn gyntaf dylai'r meddyg ystyried asesu iechyd ac amgylchedd yr unigolyn. Gallai hyn helpu i ganfod unrhyw beth sy'n achosi neu'n arwain at gynnwrf neu ymddygiad ymosodol y gellir ei drin heb feddyginiaeth.

Mae modd trin symptomau symud mewn DLB trwy ddefnyddio ffisiotherapi neu gyda levodopa, cyffur a ddefnyddir yng nghlefyd Parkinson. Mae risg y gall y cyffur hwn achosi i rithweledigaethau gweledol neu symptomau eraill ynghylch iechyd meddwl ymddangos neu waethygu. Os bydd hyn yn digwydd, rhwch wybod i'ch meddyg.

Gall camau ymarferol, fel symud gwrthrychau miniog draw oddi wrth y gwely, leihau'r risg o anaf yn ystod cwsg aflonydd. Mae cyffuriau ar gael hefyd all helpu pobl sy'n byw eu breuddwydion.

Gall triniaethau heb gyffuriau, megis therapïau gwybyddol, ymarferion a gweithgareddau grŵp, hefyd helpu gyda rhai o'r symptomau. Gallwch drafod y dewisiadau triniaeth gyda'ch meddyg.

Am wybodaeth fanylach, holwch am ein taflen '**Treatments for dementia**'.



Ffactorau risg

Oedran yw'r ffactor risg fwyaf hysbys o ran datblygu DLB. Gwyddom fod cyflyrau fel pwysedd gwaed uchel a cholesterol uchel yn ffactorau risg ar gyfer achosion eraill dementia megis clefyd Alzheimer. Mae peth tystiolaeth i awgrymu y gall hyn fod yn wir hefyd am DLB. Os oes gennych bryderon, gallwch fynnu gair â'ch meddyg am reoli'r cyflyrau hyn.

Mae astudiaethau diweddar wedi darganfod sawl gennyn sy'n gysylltiedig â risg uwch o DLB, gan gynnwys gennyn risg penodol i glefyd Alzheimer. Er bod y darganfyddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth i ni am fioleg DLB, nid yw meddu ar un o'r gennynau risg hyn yn golygu y byddwch yn bendant yn datblygu'r clefyd. Nid oes prawf ar gael gan y GIG ar gyfer y genynnau hyn.

Cefnogaeth

Gall byw gyda DLB fod yn her, ond mae mudiadau a gynnig help llaw a chefnogaeth i chi. Mae'r Lewy Body Society, mewn partneriaeth â Parkinson's UK, yn rhoi cefnogaeth a chynngor i bobl â DLB, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Gallwch gysylltu ag ymgynghorydd llinell gymorth ar **0808 800 0303** neu trwy e-bostio **hello@parkinsons.org.uk** a chael gwybodaeth yn **www.lewybody.org** ac **www.parkinsons.org.uk**

Am fanylion cyswllt mudiadau eraill sy'n cynnig cefnogaeth a chynngor, holwch am ein llyfryn '**Support for people affected by dementia: organisations that can help**' neu ewch at ein gwefan **www.alzheimersresearchuk.org**

Gallwch hefyd siarad â'ch meddyg neu nyrs.



Anfonwch fwy o wybodaeth ataf

I gael wybodaeth am ddim, llenwch y slip hon a'i rhoi mewn blwch post. Neu ffoniwch ni ar **0300 111 5555**.

Hoffwn dderbyn

All about dementia (Saesneg; SCIHIAAD)

Treatments for dementia (Saesneg; SCIHITMT)

Support for people affected by dementia: organisations that can help (Saesneg; SCIHICARE)

'Think' cylchlythyr (Saesneg; SMTTHINK)

Enw

Cyfeiriad

E-bost

Fe hoffem i chi fod y cyntaf i wybod am yr ymchwil ddiweddaraf a sut mae eich cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth, yn ogystal â ffyrdd i chi ddod yn rhan o'n gwaith sy'n newid bywydau, a helpu i'w gyllido. Byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth yn ddiogel ac ni fyddwn ni fyth yn ei gwerthu na'i ffeirio gyda neb.

Cofiwch roi gwybod i ni sut y gallwn ni gysylltu â chi (ticiwch isod):

Post E-bost Teleffon Neges destun

Gallwch newid y ffordd yr ydym yn siarad â chi ar unrhyw adeg, trwy alw **0300 111 5555** neu e-bostio **enquiries@alzheimersresearchuk.org**

Mae modd gweld ein Hysbysiad Preifatrwydd ar **www.alzheimersresearchuk.org/privacy-policy** ac y mae'n esbonio sut y byddwn ni'n defnyddio ac yn storio eich gwybodaeth.

Ymchwil

Mae Alzheimer's Research UK wedi cyllido gwerth dros

£17.4 miliwn

o ymchwil arloesol i'n helpu i ddeall mwy am dementia gyda chyrrff Lewy.



Mae'r ymchwil yr ydym yn ei chyllido yn edrych ar y protein alpha-synuclein a phroteinau eraill sy'n rhan o'r clefyd. Mae hyn yn ffurfio darlun cliriach o pam a sut y mae'r proteinau hyn yn cronni ac yn effeithio ar yr ymennydd.

Mae ein gwyddonwyr hefyd yn gweithio i ddatblygu ffyrdd newydd a blaengar o ganfod DLB, a nodi targedau ar gyfer datblygu triniaethau newydd.

Gyda chefnogaeth ein gwyddonwyr a'n cefnogwyr ymroddedig, rydym yn herio'r ffordd mae pobl yn meddwl am ddementia, gan ddwyn ynghyd y bobl a'r mudiadau all gyflymu cynnydd, a buddsoddi mewn ymchwil i wneud darganfyddiadau yn bosib.



I gael mwy o wybodaeth

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn ag ymchwil i ddementia neu os ydych eisiau cael mwy o wybodaeth ynglŷn â sut i fod yn rhan o'r ymchwil, cysylltwch â'n

Dementia Research Infoline ar **0300 111 5 111** neu e-bostiwch infoline@alzheimersresearchuk.org

Mae'r Infoline yn agored rhwng 9.00-5.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae cost galwadau ar yr un gyfradd â galwadau cenedlaethol i rifau 01 neu 02 a dylid eu cynnwys mewn unrhyw becynnau gofal am ddim.

2



Freepost RTYR-ZUUZ-AULL
Partridges
3 Eagle Avenue
Magnetic Park
Desborough
NN14 2WD

Ni yw'r brif elusen yn y DU sy'n ymchwilio i dementia ac yr ydym wedi ymrwymo i wneud darganfyddiadau a fydd yn newid bywydau o ran diagnosis, atal, triniaeth a gwella.

Rydym yn croesawu eich sylwadau i'n helpu i ddarparu'r wybodaeth orau i chi. Gallwch ddweud eich barn am y llyfryn hwn drwy gysylltu â ni. Mae'r manylion cysylltu isod.



Contact us

Alzheimer's Research UK
3 Riverside, Granta Park, Cambridge CB21 6AD



Supporter care

T: 0300 111 5555
E: enquiries@alzheimersresearchuk.org



Dementia Research Infoline

T: 0300 111 5 111
E: infoline@alzheimersresearchuk.org

www.alzheimersresearchuk.org



**Alzheimer's
Research
UK**

Make breakthroughs possible

Registered charity number 1077089 and SC042474